Cymraeg

Skills Builder

FFRAMWAITH CYFFREDINOL 2.0

Pecyn Cymorth i Addysgwyr



Cyflwyno Fframwaith Cyffredinol 2.0



Mae Skills Builder Partnership yn gweithio gydag addysgwyr a dysgwyr ledled y byd i sicrhau bod pawb yn adeiladu'r sgiliau hanfodol i ffynnu un diwrnod.

Mae Fframwaith Cyffredinol 2.0 (UF2.0) yn offeryn trawsnewidiol i addysgwyr a dysgwyr fesur ac adeiladu sgiliau hanfodol.

Mae UF2.0 yn adeiladu ar waith mwy na 900 o sefydliadau mewn ugain o wledydd i greu iaith a model a rennir ar gyfer adeiladu sgiliau hanfodol y gellir eu defnyddio gan addysgwyr unrhyw le.

Gellir ei ddefnyddio'n effeithiol o'r dysgwyr ieuengaf, trwy'r ysgol a'r coleg ac yn y gweithle. Fe'i defnyddir yn llwyddiannus mewn llawer o gyd-destunau arbenigol hefyd.

Rydym yn canolbwyntio ar yr wyth sgil hanfodol sy'n galluogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth a llwyddiant y tu hwnt iddi:

Cyfathrebu
- Gwrando
- Siarad

Datrys Problemau'n Greadigol
- Datrys Problemau
- Creadigrwydd

Hunanreoli
- Addasu
- Cynllunio

Cydweithio
- Arweinyddiaeth
- Gwaith tîm

Mae'r pecyn cymorth hwn wedi'i gynllunio i gyflwyno UF2.0 a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2025.

Os nad ydych chi'n bartner ar hyn o bryd, gallwch ddarganfod mwy am ein rhaglenni, ein hoffer a'n cefnogaeth trwy ein gwefan **www.skillsbuilder.org**

Mae Fframwaith Cyffredinol 2.0 wedi'i ddiogelu gan drwydded Creative Commons Attribution-No Derivatives-Non Commercial. Mae angen caniatâd gan Skills Builder Partnership ar ddefnyddwyr amgen Fframwaith Cyffredinol 2.0. https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/



Tom Ravenscroft
Sylfaenydd a Phrif Swyddog Gweithredol, Skills Builder Partnership

Dechrau arni





Mae Fframwaith Cyffredinol 2.0 yn rhannu pob un o'r wyth sgil hanfodol yn 16 cam, o ddechreuwr llwyr hyd at feistrolaeth.

Rydym yn gwybod bod taith pob dysgwr wrth adeiladu sgiliau hanfodol yn edrych yn wahanol. Er bod y camau wedi'u trefnu mewn dilyniant rhesymegol, sy'n seiliedig ar ddata, mae'n debyg y bydd gan unigolion gryfderau mewn rhai meysydd a byddant yn gweld camau eraill yn fwy heriol. Mae hynny'n arbennig o wir lle mae unigolion yn niwroamrywiol neu os oes ganddynt anghenion dysgu neu anableddau ychwanegol.

Fodd bynnag, man cychwyn defnyddiol mewn cyd-destunau prif ffrwd yw meddwl am dargedu ystod pedwar cam i'ch dysgwyr yn seiliedig ar eu hoedran:

Disgwyliadau	Islaw'r disgwyliadau	Yn nesáu at y disgwyliadau	Yn bodloni'r disgwyliadau	Yn rhagori ar y disgwyliadau
Fformiwla gyffredinol	Grŵp Blwyddyn -2	Grŵp Blwyddyn -1	Grŵp Blwyddyn	Grŵp Blwyddyn +1
Enghraifft: Blwyddyn / Gradd 3	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4
Enghraifft: Blwyddyn / Gradd 11	Cam 9	Cam 10	Cam 11	Cam 12

Gellir defnyddio'r camau sgiliau fel canlyniadau dysgu. Rydym yn argymell tri dull gwahanol o adeiladu camau sgiliau hanfodol:

- **Addysgu uniongyrchol:** Mae gan bob cam sgiliau wybodaeth sylfaenol y gellir ei addysgu'n uniongyrchol – er enghraifft, gwahanol offer creadigol, sut i strwythuro trafodaeth neu beth yw rhagdybiaeth. Dylid addysgu hyn yn uniongyrchol, ac o fis Medi 2025 bydd Hyb Skills Builder yn darparu'r deunyddiau hyn.
- **Defnyddio sgiliau a'u hatgyfnerthu yn y cwricwlwm:** Trwy'r cwricwlwm, bydd cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer y sgiliau hanfodol – boed hynny trwy waith prosiect, cyflwyniadau neu gyfleoedd cydweithredol.
- **Cysylltu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth:** Gall profiad gwaith, teithiau, ymweliadau a gweithgareddau addysg ynglŷn â gyrfaoedd eraill yn ogystal â chwaraeon, celfyddydau neu weithgareddau cymunedol i gyd fod yn gyfleoedd i ymarfer a defnyddio'r sgiliau hyn hefyd.

Gellir defnyddio'r camau sgiliau fel sail ar gyfer meini prawf asesu i olrhain cynnydd hefyd

Fframwaith Cyffredinol 2.0: Trosolwg

Sgiliau Hanfodol

		Dechrau arni (Targedau posibl ar gyfer 5-9 oed)				Canolradd (Targedau posibl ar gyfer 9-13)			
Cyfathrebu	GWRANDO	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5	Cam 6	Cam 7	Cam 8
		Canolbwyntio	Cofio	Gwirio	Ailadrodd	Cydnabod pwrpas	Cymryd nodiadau	Gwrando gweithredol	Cwestiynu
	SIARAD	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5	Cam 6	Cam 7	Cam 8
		Rhannu'n glir	Trafod ar y cyd	Cwrdd ag eraill	Trefnu meddyliau	Adnabod y gynulleidfa	Dewis iaith	Mynegi eu hunain	Defnyddio ffeithiau
Datrys Problemau'n Greadigol	DATRYS PROBLEMAU	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5	Cam 6	Cam 7	Cam 8
		Dilyn cyfarwyddiadau	Ceisio cymorth	Rhannu problemau	Dod o hyd i wybodaeth	Creu opsiynau	Dadansoddi opsiynau	Gwerthuso opsiynau	Ymchwilio
	CREADIGRWYDD	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5	Cam 6	Cam 7	Cam 8
		Dychmygu	Rhannu dychymyg	Mynegi dychymyg	Cynhyrchu syniadau	Awgrymu gwelliannau	Cyfuno cysyniadau	Nodi cyfleoedd	Diffinio llwyddiant
Hunanreoli	ADDASU	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5	Cam 6	Cam 7	Cam 8
		Nodi emosiynau	Adnabod emosiynau	Parhau	Rheoli ymatebion	Dysgu myfyriol	Cefnogi eraill	Annog eraill	Rheoli llesiant
	CYNLLUNIO	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5	Cam 6	Cam 7	Cam 8
		Synhwyro anawsterau	Nodi llwyddiannau	Gweithio'n ofalus	Cydnabod cryfderau	Wynebu heriau	Gosod nodau	Meddwl ymlaen	Blaenoriaethu
Cydweithio	ARWEINYDDIAETH	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5	Cam 6	Cam 7	Cam 8
		Deall ymatebion	Rhannu ymatebion	Adnabod ymatebion	Trefnu tasgau	Rheoli adnoddau	Mentora	Hunanymwybyddiaeth	Gwerthuso eraill
	GWAITH TÎM	Cam 1	Cam 2	Cam 3	Cam 4	Cam 5	Cam 6	Cam 7	Cam 8
		Cydweithio	Addasu ymddygiad	Bod yn brydlon	Cymryd cyfrifoldeb	Cefnogi eraill	Bod yn atebol	Cyfrannu	Gwerthfawrogi eraill

Fframwaith Cyffredinol 2.0: Trosolwg

Sgiliau Hanfodol

		Uwch (Targed posibl ar gyfer dysgwyr 13-17 oed)				Meistrolaeth (Targedau posibl ar gyfer 17+ oed)			
Cyfathrebu	GWRANDO	**Cam 9**	**Cam 10**	**Cam 11**	**Cam 12**	**Cam 13**	**Cam 14**	**Cam 15**	**Cam 16**
		Crynhoi	Adnabod tôn	Nodi dylanwad	Cymharu safbwyntiau	Dadansoddi safbwyntiau	Ymchwilio i ragfarn	Cwestiynu strategol	Gwerthuso safbwyntiau
	SIARAD	**Cam 9**	**Cam 10**	**Cam 11**	**Cam 12**	**Cam 13**	**Cam 14**	**Cam 15**	**Cam 16**
		Rhannu delweddau	Cyfathrebu'n sensitif	Siarad mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb	Cyfathrebu addasol	Negodi	Cyfathrebu adeiladol	Cyflwyno	Ysbrydoli eraill
Datrys Problemau'n Greadigol	DATRYS PROBLEMAU	**Cam 9**	**Cam 10**	**Cam 11**	**Cam 12**	**Cam 13**	**Cam 14**	**Cam 15**	**Cam 16**
		Archwilio achosiaeth	Adnabod patrymau	Meddwl systemau	Rhesymu rhesymegol	Profi damcaniaethau	Cynllunio strategol	Gwerthuso dulliau	Dysgu parhaus
	CREADIGRWYDD	**Cam 9**	**Cam 10**	**Cam 11**	**Cam 12**	**Cam 13**	**Cam 14**	**Cam 15**	**Cam 16**
		Meddwl yn hyblyg	Myfyrio'n feirniadol	Ceisio safbwyntiau	Prototeipio	Deori syniadau	Defnyddio chwilfrydedd	Hwyluso creadigrwydd	Hyrwyddo creadigrwydd
Hunanreoli	ADDASU	**Cam 9**	**Cam 10**	**Cam 11**	**Cam 12**	**Cam 13**	**Cam 14**	**Cam 15**	**Cam 16**
		Cydbwyso llwyth gwaith	Gwella perfformiad	Ymarfer cydnerthedd	Cefnogi cydnerthedd	Addasu cynlluniau	Nodi risgiau	Rheoli risg	Bod yn fentrus
	CYNLLUNIO	**Cam 9**	**Cam 10**	**Cam 11**	**Cam 12**	**Cam 13**	**Cam 14**	**Cam 15**	**Cam 16**
		Darparu adnoddau	Cynnwys eraill	Defnyddio sgiliau	Gosod targed	Ceisio adborth	Cynllunio prosiect	Cynllunio addasol	Cynllunio ystwyth
Cydweithio	ARWEINYDDIAETH	**Cam 9**	**Cam 10**	**Cam 11**	**Cam 12**	**Cam 13**	**Cam 14**	**Cam 15**	**Cam 16**
		Dyrannu rolau	Hwyluso trafodaethau	Rheoli anghytundebau	Hyfforddi	Ysgogi eraill	Deallusrwydd emosiynol	Arwain yn feddylgar	Arwain yn addasol
	GWAITH TÎM	**Cam 9**	**Cam 10**	**Cam 11**	**Cam 12**	**Cam 13**	**Cam 14**	**Cam 15**	**Cam 16**
		Bod yn gynhwysol	Bod yn ddiplomyddol	Datrys gwrthdaro	Rhwydweithio	Myfyrio ar y cyd	Dysgu ar y cyd	Datblygu eraill	Gwella diwylliant



Gwrando

Derbyn, cadw a phrosesu gwybodaeth

Mae'r sgil hon yn ymwneud â sut rydyn ni'n derbyn gwybodaeth – boed hynny gan gyfoedion, addysgwr neu rywun arall.

Dechrau arni (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 5-9 oed): I ddechrau, mae dysgwyr yn derbyn gwybodaeth yn ddibynadwy trwy gynnal ffocws digonol, cofio cyfarwyddiadau syml, gwirio eu bod yn deall a throsglwyddo gwybodaeth yn gywir.

Canolradd (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 9-13 oed): Nesaf, mae dysgwyr yn gwrando'n weithredol, gan gydnabod pwrpas cyfathrebu, gwneud nodiadau, dangos eu hymgysylltiad a defnyddio cwestiynau agored.

Uwch (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 13-17 oed): Yna, mae dysgwyr yn dod yn ddefnyddwyr beirniadol o wybodaeth trwy grynhoi, adnabod tôn a dylanwadu ar dechnegau a chymharu safbwyntiau.

Meistrolaeth (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 17+ oed): Yn olaf, mae dysgwyr yn archwilio pam mae gwahanol safbwyntiau'n dod i'r amlwg, yn ymchwilio i ragfarnau, yn herio ac yn archwilio gwahanol safbwyntiau, ac yn eu hintegreiddio a'u gwerthuso.

Ymarfer cynhwysol: Gellir ehangu'r diffiniad o wrando i gynnwys ffyrdd eraill o dderbyn gwybodaeth. Mae disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn fras, yn seiliedig ar ddata, a bydd dysgwyr yn amrywio'n ystyrlon.

Dechrau arni	Cam 1	**Canolbwyntio** Gallaf wrando am o leiaf amser byr
	Cam 2	**Cofio** Rwy'n cofio cyfarwyddiadau syml
	Cam 3	**Gwirio** Rwy'n gofyn cwestiynau os nad ydw i'n deall
	Cam 4	**Ailadrodd** Rwy'n trosglwyddo gwybodaeth yn gywir
Canolradd	Cam 5	**Cydnabod pwrpas** Rwy'n gwybod pam mae rhywun yn cyfathrebu â mi
	Cam 6	**Cymryd nodiadau** Rwy'n cofnodi gwybodaeth bwysig
	Cam 7	**Gwrando gweithredol** Rwy'n dangos fy mod i'n talu sylw
	Cam 8	**Cwestiynu** Rwy'n gofyn cwestiynau agored i ddeall mwy
Uwch	Cam 9	**Crynhoi** Rwy'n ailadrodd neu'n crynhoi'r hyn a ddysgais
	Cam 10	**Adnabod tôn** Rwy'n cydnabod tôn cyfathrebu
	Cam 11	**Adnabod dylanwad** Rwy'n cydnabod pan fydd rhywun yn ceisio dylanwadu arnaf
	Cam 12	**Cymharu safbwyntiau** Rwy'n cymharu gwahanol safbwyntiau
Meistrolaeth	Cam 13	**Dadansoddi safbwyntiau** Rwy'n archwilio pam y gall pobl gael safbwyntiau gwahanol
	Cam 14	**Ymchwilio i ragfarn** Rwy'n dadansoddi lle dangosir rhagfarn
	Cam 15	**Cwestiynu strategol** Rwy'n defnyddio cwestiynau i herio safbwyntiau
	Cam 16	**Gwerthuso safbwyntiau** Rwy'n gwerthuso ac yn integreiddio gwahanol safbwyntiau yn wrthrychol

Mae Fframwaith Cyffredinol 2.0 wedi'i warchod gan drwydded Creative Commons Attribution-No Derivatives-Non Commercial. Mae angen caniatâd gan Skills Builder Partnership ar ddefnyddwyr amgen Fframwaith Cyffredinol 2.0. https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/

Siarad

Trosglwyddo gwybodaeth neu syniadau

Mae'r sgil hon yn ymwneud â sut mae dysgwyr yn trosglwyddo gwybodaeth a syniadau – boed hynny i gyfoedion, addysgwyr neu bobl eraill.

Dechrau arni (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 5-9 oed): I ddechrau, mae dysgwyr yn cyfathrebu'n glir ag unigolion maen nhw'n eu hadnabod, mewn grwpiau bach ac yna â phobl newydd wrth drefnu pwyntiau er mwyn cael eu deall.

Canolradd (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 9-13 oed): Nesaf, mae dysgwyr yn cyfathrebu'n effeithiol trwy feddwl am yr hyn y mae eu cynulleidfa eisoes yn ei wybod, dewis iaith, tôn, mynegiant ac ystum priodol, a dod â ffeithiau i mewn yn briodol.

Uwch (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 13-17 oed): Yna, mae dysgwyr yn dod yn gyfathrebwyr mwy addasadwy trwy ddod â chymhorthion gweledol, rheoli pynciau sensitif, yn ogystal ag ennyn diddordeb a bod yn addasol.

Meistrolaeth (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 17+ oed): Yn olaf, gall dysgwyr drafod yn effeithiol, cynnal cyfathrebu mewn sefyllfaoedd anodd, cyflwyno syniadau cymhleth a rhannu gweledigaeth.

Ymarfer cynhwysol: Gellir ehangu'r diffiniad o siarad i gynnwys ffyrdd eraill o drosglwyddo gwybodaeth. Mae disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn fras, yn seiliedig ar ddata, a bydd dysgwyr yn amrywio'n ystyrlon.

Dechrau arni	Cam 1	**Rhannu'n glir** Rwy'n cyfathrebu'n glir â rhywun rwy'n ei adnabod
	Cam 2	**Trafod ar y cyd** Rwy'n cyfathrebu'n glir mewn grŵp bach
	Cam 3	**Cwrdd ag eraill** Rwy'n cyfathrebu â phobl newydd pan fydd angen i mi
	Cam 4	**Trefnu meddyliau** Rwy'n trefnu fy mhwyntiau er mwyn cael fy neall
Canolradd	Cam 5	**Adnabod y gynulleidfa** Rwy'n addasu fy ffordd o gyfathrebu i'r hyn y mae fy nghynulleidfa eisoes yn ei wybod
	Cam 6	**Dewis iaith** Rwy'n dewis iaith briodol ar gyfer y sefyllfa
	Cam 7	**Mynegi eu hunain** Rwy'n defnyddio tôn, mynegiant ac ystum er mwyn cael fy neall
	Cam 8	**Defnyddio ffeithiau** Rwy'n defnyddio ffeithiau ac enghreifftiau i gefnogi fy ffordd o gyfathrebu
Uwch	Cam 9	**Rhannu delweddau** Rwy'n defnyddio delweddau, siartiau neu ddiagramau pan fydd yn helpu fy ffordd o gyfathrebu
	Cam 10	**Cyfathrebu'n sensitif** Rwy'n siarad am bynciau anodd neu sensitif yn effeithiol
	Cam 11	**Siarad yn ymgysylltu** Rwy'n cyfathrebu mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb fy nghynulleidfa
	Cam 12	**Cyfathrebu addasol** Rwy'n addasu fy ffordd o gyfathrebu yn dibynnu ar ymatebion y gynulleidfa
Meistrolaeth	Cam 13	**Negodi** Rwy'n rheoli trafodaethau'n effeithiol i ddod i gytundeb
	Cam 14	**Cyfathrebu adeiladol** Rwy'n cynnal cyfathrebu clir ac adeiladol mewn sefyllfaoedd heriol
	Cam 15	**Cyflwyno** Rwy'n cyflwyno i gynulleidfa pan fo angen
	Cam 16	**Ysbrydoli eraill** Rwy'n cyfathrebu gweledigaeth mewn ffordd argyhoeddiadol

Mae Fframwaith Cyffredinol 2.0 wedi'i warchod gan drwydded Creative Commons Attribution-No Derivatives-Non Commercial. Mae angen caniatâd gan Skills Builder Partnership ar ddefnyddwyr amgen Fframwaith Cyffredinol 2.0. https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/

Datrys Problemau

Dod o hyd i atebion i heriau

Mae'r sgil hon yn ymwneud â sut mae dysgwyr yn datrys problemau yn effeithiol, gan gydnabod, er bod gwybodaeth a sgiliau technegol yn hanfodol, fod technegau trosglwyddadwy rhwng cyd-destunau hefyd.

Dechrau arni (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 5-9 oed): I ddechrau, mae dysgwyr yn datrys problemau syml trwy ddilyn cyfarwyddiadau, ceisio cymorth a rhannu beth yw'r broblem, neu ddod o hyd i wybodaeth eu hunain.

Canolradd (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 9-13 oed): Nesaf, mae dysgwyr yn archwilio problemau cymhleth trwy greu sawl ateb posibl, eu dadansoddi, defnyddio meini prawf llwyddiant er mwyn eu gwerthuso a defnyddio ymchwil ychwanegol yn effeithiol.

Uwch (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 13-17 oed): Yna, mae dysgwyr yn ymchwilio i broblemau cymhleth trwy archwilio achosiaeth, adnabod patrymau ac egwyddorion, meddwl am rannau o system a rhesymu'n rhesymegol.

Meistrolaeth (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 17+ oed): Yn olaf, mae dysgwyr yn mynd i'r afael â phroblemau cymhleth trwy greu a phrofi damcaniaethau, ac yna creu, gweithredu a mireinio cynlluniau strategol.

Ymarfer cynhwysol: Mae disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn fras, yn seiliedig ar ddata, a gall proffiliau sgiliau dysgwyr amrywio'n ystyrlon.

Dechrau arni	Cam 1	**Dilyn cyfarwyddiadau** Rwy'n dilyn cyfarwyddiadau
	Cam 2	**Ceisio cefnogaeth** Rwy'n dod o hyd i help gan rywun os oes angen
	Cam 3	**Rhannu problemau** Rwy'n disgrifio problemau i eraill
	Cam 4	**Dod o hyd i wybodaeth** Rwy'n dod o hyd i wybodaeth i gwblhau tasg
Canolradd	Cam 5	**Creu opsiynau** Rwy'n creu gwahanol atebion posibl i broblem
	Cam 6	**Dadansoddi opsiynau** Rwy'n nodi manteision ac anfanteision atebion posibl
	Cam 7	**Gwerthuso opsiynau** Rwy'n dewis rhwng atebion posibl yn seiliedig ar feini prawf llwyddiant
	Cam 8	**Ymchwilio** Rwy'n ymchwilio i adeiladu fy nealltwriaeth
Uwch	Cam 9	**Archwilio achosiaeth** Rwy'n dadansoddi achosion ac effeithiau
	Cam 10	**Adnabod patrymau** Rwy'n nodi patrymau i gael mewnwelediad
	Cam 11	**Meddwl systemau** Rwy'n nodi sut mae rhannau o system yn effeithio ar ei gilydd
	Cam 12	**Rhesymu rhesymegol** Rwy'n defnyddio rhesymu rhesymegol i strwythuro problemau
Meistrolaeth	Cam 13	**Profi rhagdybiaeth** Rwy'n strwythuro syniadau fel y gallaf eu profi
	Cam 14	**Cynllunio strategol** Rwy'n datblygu cynlluniau strategol i fynd i'r afael â phroblemau cymhleth
	Cam 15	**Gwerthuso dulliau gweithredu** Rwy'n gwerthuso llwyddiant cynlluniau strategol
	Cam 16	**Dysgu parhaus** Rwy'n gwella cynlluniau strategol yn seiliedig ar fewnwelediadau newydd

Mae Fframwaith Cyffredinol 2.0 wedi'i warchod gan drwydded Creative Commons Attribution-No Derivatives-Non Commercial. Mae angen caniatâd gan Skills Builder Partnership ar ddefnyddwyr amgen Fframwaith Cyffredinol 2.0. https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/

Creadigrwydd

Defnyddio dychymyg a chynhyrchu syniadau newydd

Mae'r sgil hon yn ymwneud â sut mae dysgwyr yn creu syniadau a phosibiliadau newydd mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau ac mae'n ategu datrys problemau.

Dechrau arni (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 5-9 oed): I ddechrau, mae dysgwyr yn defnyddio eu dychymyg i ddychmygu gwahanol bosibiliadau, eu rhannu a'u mynegi, a chreu syniadau pan roddir anogaeth syml.

Canolradd (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 9-13 oed): Nesaf, mae dysgwyr yn defnyddio eu creadigrwydd i awgrymu gwelliannau, cyfuno cysyniadau, nodi cyfleoedd ar gyfer arloesi a datblygu meini prawf llwyddiant.

Uwch (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 13-17 oed): Yna, mae dysgwyr yn archwilio meddwl creadigol yn ddyfnach trwy herio eu rhagdybiaethau eu hunain, myfyrio'n feirniadol, chwilio am safbwyntiau a phrototeipio syniadau i'w datblygu ymhellach.

Meistrolaeth (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 17+ oed): Yn olaf, mae dysgwyr yn gyrru creadigrwydd yn ehangach trwy ddeori syniadau, chwilio am syniadau a chyfleoedd newydd, a hwyluso a hyrwyddo creadigrwydd ac arloesedd yn ehangach.

Ymarfer cynhwysol: Mae disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn fras, yn seiliedig ar ddata, a gall proffiliau sgiliau dysgwyr amrywio'n ystyrlon.

Dechrau arni	Cam 1	**Dychmygu** Rwy'n dychmygu pethau gwahanol
	Cam 2	**Rhannu dychymyg** Rwy'n rhannu'r hyn rwy'n ei ddychmygu gyda rhywun
	Cam 3	**Mynegi dychymyg** Rwy'n rhannu'r hyn rwy'n ei ddychmygu mewn gwahanol ffyrdd
	Cam 4	**Cynhyrchu syniadau** Rwy'n creu syniadau i ddatrys problem
Canolradd	Cam 5	**Awgrymu gwelliannau** Rwy'n creu syniadau i wneud rhywbeth yn well
	Cam 6	**Cyfuno cysyniadau** Gallaf gyfuno syniadau i wneud rhai newydd
	Cam 7	**Nodi cyfleoedd** Rwy'n nodi cyfleoedd ar gyfer arloesi
	Cam 8	**Diffinio llwyddiant** Rwy'n gosod meini prawf llwyddiant ar gyfer creu syniadau newydd
Uwch	Cam 9	**Meddwl yn hyblyg** Rwy'n herio fy rhagdybiaethau am syniadau
	Cam 10	**Myfyrio'n feirniadol** Rwy'n cwestiynu fy syniadau fy hun i'w gwella
	Cam 11	**Ceisio safbwyntiau** Rwy'n ceisio gwahanol safbwyntiau i ddatblygu fy syniadau
	Cam 12	**Prototeipio** Rwy'n creu profion cyflym o syniad
Meistrolaeth	Cam 13	**Deori syniadau** Rwy'n rhoi amser a sylw i syniadau esblygu
	Cam 14	**Defnyddio chwilfrydedd** Rwy'n ceisio cysyniadau a syniadau newydd i arloesi ohonynt
	Cam 15	**Hwyluso creadigrwydd** Rwy'n rhannu offer creadigol ar gyfer arloesi ar y cyd
	Cam 16	**Hyrwyddo creadigrwydd** Rwy'n meithrin diwylliannau creadigrwydd ac arloesedd

Mae Fframwaith Cyffredinol 2.0 wedi'i warchod gan drwydded Creative Commons Attribution-No Derivatives-Non Commercial. Mae angen caniatâd gan Skills Builder Partnership ar ddefnyddwyr amgen Fframwaith Cyffredinol 2.0. https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/

Addasu

Goresgyn heriau a rhwystrau i gyflawni nodau

Mae'r sgil hon yn ymwneud â sut mae dysgwyr yn addasu i heriau a rhwystrau yn effeithiol boed mewn addysg neu yn eu bywydau ehangach.

Dechrau arni (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 5-9 oed): I ddechrau, mae dysgwyr yn nodi eu hymatebion emosiynol eu hunain ac ymatebion eraill, gan ddangos dyfalbarhad a rheoli eu hymatebion uniongyrchol i anawsterau.

Canolradd (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 9-13 oed): Nesaf, mae dysgwyr yn dangos agwedd gadarnhaol at heriau, gan fyfyrio a dysgu oddi wrthynt, cefnogi ac annog eraill a rheoli eu llesiant eu hunain yn rhagweithiol.

Uwch (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 13-17 oed): Yna, mae dysgwyr yn meithrin eu cydnerthedd trwy gydbwyso eu llwyth gwaith, gwella eu perfformiad yn rhagweithiol ac ymarfer a chefnogi eraill i adnabod cyfleoedd mewn heriau.

Meistrolaeth (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 17+ oed): Yn olaf, mae dysgwyr yn defnyddio eu gallu i addasu trwy addasu cynlluniau, nodi a rheoli risgiau a manteisio ar y cyfleoedd sydd mewn heriau a rhwystrau.

Ymarfer cynhwysol: Mae disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn fras, yn seiliedig ar ddata, a gall proffiliau sgiliau dysgwyr amrywio'n ystyrlon.

Dechrau arni	Cam 1	**Adnabod emosiynau** Gallaf ddweud sut rwy'n teimlo
	Cam 2	**Adnabod emosiynau** Gallaf ddweud sut mae eraill yn teimlo
	Cam 3	**Parhau** Rwy'n dyfalbarhau pan fyddaf yn wynebu heriau
	Cam 4	**Rheoli ymatebion** Rwy'n ymateb yn bwyllog pan fyddaf yn wynebu heriau
Canolradd	Cam 5	**Dysgu myfyriol** Rwy'n myfyrio ac yn dysgu o heriau
	Cam 6	**Cefnogi eraill** Rwy'n helpu eraill i wynebu heriau
	Cam 7	**Annog eraill** Rwy'n annog eraill i barhau i fynd
	Cam 8	**Rheoli llesiant** Mae gen i arferion i reoli fy llesiant
Uwch	Cam 9	**Cydbwyso llwyth gwaith** Rwy'n rheoli fy llwyth gwaith yn effeithiol
	Cam 10	**Gwella perfformiad** Rwy'n ceisio cyfleoedd i dyfu fy mhrofiad a'm harbenigedd
	Cam 11	**Ymarfer cydnerthedd** Rwy'n chwilio am gyfleoedd wrth wynebu heriau
	Cam 12	**Cefnogi cydnerthedd** Rwy'n helpu eraill i weld cyfleoedd wrth wynebu heriau
Meistrolaeth	Cam 13	**Addasu cynlluniau** Rwy'n newid cynlluniau i weithio trwy rwystrau
	Cam 14	**Nodi risgiau** Rwy'n nodi risgiau a manteision posibl
	Cam 15	**Rheoli risg** Rwy'n rheoli risgiau yn weithredol
	Cam 16	**Bod yn fentrus** Rwy'n manteisio ar gyfleoedd

Mae Fframwaith Cyffredinol 2.0 wedi'i warchod gan drwydded Creative Commons Attribution-No Derivatives-Non Commercial. Mae angen caniatâd gan Skills Builder Partnership ar ddefnyddwyr amgen Fframwaith Cyffredinol 2.0. https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/

Cynllunio

Gosod nodau a dylunio llwybrau i'w cyflawni

Mae'r sgil hon yn ymwneud â sut mae dysgwyr yn datblygu nodau clir, diriaethol a llwybrau cadarn i'w cyflawni – boed hynny mewn cyd-destunau addysgol neu eu bywydau ehangach.

Dechrau arni (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 5-9 oed): I ddechrau, mae dysgwyr yn asesu anhawster tasgau, gan wybod beth mae gwneud yn dda yn ei olygu iddyn nhw, gweithio'n ofalus a chydnabod eu cryfderau.

Canolradd (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 9-13 oed): Nesaf, mae dysgwyr yn cymryd agwedd gadarnhaol at heriau newydd, gan osod nodau cyraeddadwy, datblygu cynlluniau syml a blaenoriaethu tasgau.

Uwch (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 13-17 oed): Yna, mae dysgwyr yn gweithredu cynlluniau mwy cymhleth trwy sicrhau adnoddau, ymgysylltu ag eraill y tu ôl i'r nod, datblygu'r sgiliau sydd eu hangen a gosod targedau i fesur llwyddiant.

Meistrolaeth (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 17+ oed): Yn olaf, mae dysgwyr yn datblygu cynlluniau soffistigedig trwy geisio adborth, defnyddio offer cynllunio prosiectau, addasu cynlluniau gan ddefnyddio data a chynllunio mewn ffordd ystwyth.

Ymarfer cynhwysol: Mae disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn fras, yn seiliedig ar ddata, a gall proffiliau sgiliau dysgwyr amrywio'n ystyrlon.

Dechrau arni	Cam 1	**Synhwyro anhawster** Rwy'n gwybod pan fydd rhywbeth yn rhy anodd
	Cam 2	**Adnabod llwyddiannau** Rwy'n gwybod beth mae gwneud yn dda yn ei olygu i mi
	Cam 3	**Gweithio'n ofalus** Rwy'n gweithio gyda gofal a sylw
	Cam 4	**Cydnabod cryfderau** Rwy'n cydnabod yr hyn rydw i'n dda ynddo
Canolradd	Cam 5	**Wynebu heriau** Rwy'n cymryd agwedd gadarnhaol at heriau newydd
	Cam 6	**Gosod nodau** Rwy'n gosod nodau cyraeddadwy i mi fy hun
	Cam 7	**Meddwl ymlaen** Rwy'n meddwl am lwybrau i gyflawni nod
	Cam 8	**Blaenoriaethu** Rwy'n trefnu a blaenoriaethu tasgau i gyflawni nodau
Uwch	Cam 9	**Adnoddau** Rwy'n sicrhau'r adnoddau sydd eu hangen arnaf i gyflawni nodau
	Cam 10	**Cynnwys eraill** Rwy'n ymgysylltu ag eraill i gyflawni nodau
	Cam 11	**Defnyddio sgiliau** Rwy'n cynllunio sut i ddefnyddio ac adeiladu fy sgiliau i gyflawni nodau
	Cam 12	**Gosod targedau** Rwy'n creu cynlluniau gyda thargedau clir i fesur llwyddiant
Meistrolaeth	Cam 13	**Ceisio adborth** Rwy'n ceisio amrywiaeth o safbwyntiau i wella cynlluniau
	Cam 14	**Cynllunio prosiect** Rwy'n defnyddio offer cynllunio i drefnu prosiectau cymhleth
	Cam 15	**Cynllunio addasol** Rwy'n defnyddio data i werthuso cynnydd a gwneud addasiadau
	Cam 16	**Cynllunio ystwyth** Rwy'n gweithio'n hyblyg ac yn ymatebol i wella fy nghynlluniau

Mae Fframwaith Cyffredinol 2.0 wedi'i warchod gan drwydded Creative Commons Attribution-No Derivatives-Non Commercial. Mae angen caniatâd gan Skills Builder Partnership ar ddefnyddwyr amgen Fframwaith Cyffredinol 2.0. https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/

Arweinyddiaeth

Cefnogi, annog ac ysgogi eraill i gyflawni nod a rennir

Mae'r sgil hon yn ymwneud â sut mae dysgwyr yn gwneud i bethau ddigwydd yn eu haddysg a'u bywydau ehangach, p'un a oes ganddynt swydd arweinyddiaeth ffurfiol ai peidio.

Dechrau arni (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 5-9 oed): I ddechrau, mae dysgwyr yn deall eu hymatebion eu hunain i syniadau, rhannu'r rheini yn effeithiol, cydnabod ymatebion eraill a dyrannu tasgau'n rhesymol.

Canolradd (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 9-13 oed): Nesaf, mae dysgwyr yn dechrau arwain eraill trwy reoli amser ac adnoddau i gwblhau tasgau, cydnabod cryfderau a gwendidau eu hunain ac eraill a defnyddio'r mewnwelediad hwn i ddyrannu rolau.

Uwch (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 13-17): Yna, mae dysgwyr yn defnyddio dull arweinyddiaeth gydweithredol trwy hwyluso trafodaethau, rheoli anghytundebau a defnyddio technegau mentora a hyfforddi.

Meistrolaeth (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 17+ oed): Yn olaf, mae dysgwyr yn dangos arweinyddiaeth gref trwy ysgogi eraill yn effeithiol, defnyddio deallusrwydd emosiynol a meddwl am ac addasu eu harddull arwain.

Ymarfer cynhwysol: Mae disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn fras, yn seiliedig ar ddata, a gall proffiliau sgiliau dysgwyr amrywio'n ystyrlon.

Dechrau arni	Cam 1	**Deall ymatebion** Rwy'n gwybod sut mae syniad yn gwneud i mi deimlo
	Cam 2	**Rhannu ymatebion** Rwy'n esbonio sut mae syniad yn gwneud i mi deimlo pan fo'n briodol
	Cam 3	**Cydnabod ymatebion** Rwy'n gwybod pan fydd gan eraill deimladau cryf am rywbeth
	Cam 4	**Trefnu tasgau** Rwy'n rhannu tasgau mewn ffordd deg
Canolradd	Cam 5	**Rheoli adnoddau** Rwy'n rheoli amser ac adnoddau tîm i gwblhau tasgau
	Cam 6	**Mentora** Rwy'n defnyddio fy mhrofiad i gefnogi eraill
	Cam 7	**Hunanymwybyddiaeth** Rwy'n cydnabod sut mae eraill yn gweld fy nghryfderau a'm gwendidau
	Cam 8	**Gwerthuso eraill** Rwy'n nodi cryfderau a gwendidau eraill
Uwch	Cam 9	**Dyrannu rolau** Rwy'n dyrannu rolau yn seiliedig ar gryfderau a gwendidau
	Cam 10	**Hwyluso trafodaethau** Rwy'n strwythuro trafodaethau grŵp
	Cam 11	**Rheoli anghytundebau** Rwy'n cefnogi gwneud penderfyniadau a rennir
	Cam 12	**Hyfforddi** Rwy'n defnyddio cwestiynau strwythuredig i helpu eraill
Meistrolaeth	Cam 13	**Ysgogi eraill** Rwy'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ysgogi eraill
	Cam 14	**Deallusrwydd emosiynol** Rwy'n ymateb i emosiynau eraill er mwyn arwain yn effeithiol
	Cam 15	**Arwain yn feddylgar** Rwy'n cydnabod fy arddull arwain a'i effaith ar eraill
	Cam 16	**Arwain yn addasol** Rwy'n addasu fy arddull arwain i'r sefyllfa

Mae Fframwaith Cyffredinol 2.0 wedi'i warchod gan drwydded Creative Commons Attribution-No Derivatives-Non Commercial. Mae angen caniatâd gan Skills Builder Partnership ar ddefnyddwyr amgen Fframwaith Cyffredinol 2.0. https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/

Gwaith tîm

Cydweithio ag eraill i gyflawni nod a rennir

Mae'r sgil hon yn ymwneud â sut mae dysgwyr yn gweithio gydag eraill ac yn cydweithio'n effeithiol boed mewn addysg neu yn eu bywydau ehangach.

Dechrau arni (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 5-9 oed): I ddechrau, mae dysgwyr yn dangos eu bod yn gallu gweithio gydag eraill, gan ymddwyn yn briodol ar gyfer y cyd-destun, dangos prydlondeb dibynadwy a chymryd cyfrifoldeb am dasgau syml.

Canolradd (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 9-13 oed): Nesaf, mae dysgwyr yn cyfrannu at dimau trwy gefnogi eraill, bod yn atebol am eu nodau, cyfrannu at weithgareddau grŵp a gwerthfawrogi cyfraniadau eraill.

Uwch (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 13-17 oed): Yna, mae dysgwyr yn gwneud timau'n fwy effeithiol trwy fod yn gynhwysol, bod yn ddiplomyddol, datrys gwrthdaro ac adeiladu rhwydweithiau.

Meistrolaeth (Targedau posibl ar gyfer dysgwyr 17+ oed): Yn olaf, mae dysgwyr yn gyrru perfformiad tîm trwy adlewyrchu ac awgrymu gwelliannau, cefnogi dysgu ar y cyd, datblygu eu cyfoedion a gwella diwylliant y tîm.

Ymarfer cynhwysol: Mae disgwyliadau sy'n gysylltiedig ag oedran yn fras, yn seiliedig ar ddata, a gall proffiliau sgiliau dysgwyr amrywio'n ystyrlon.

Dechrau arni	Cam 1	**Cydweithio** Rwy'n gweithio gydag eraill pan fo'n briodol
	Cam 2	**Addasu ymddygiad** Rwy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n briodol i'r cyd-destun
	Cam 3	**Bod yn brydlon** Rwy'n dangos prydlondeb dibynadwy
	Cam 4	**Cymryd cyfrifoldeb** Rwy'n cymryd cyfrifoldeb am gwblhau tasgau
Canolradd	Cam 5	**Cefnogi eraill** Rwy'n helpu eraill cymaint ag y gallaf
	Cam 6	**Bod yn atebol** Rwy'n atebol am fy nodau
	Cam 7	**Cyfrannu** Rwy'n cyfrannu at weithgaredd grŵp
	Cam 8	**Gwerthfawrogi eraill** Rwy'n cydnabod gwerth syniadau pobl eraill
Uwch	Cam 9	**Bod yn gynhwysol** Rwy'n cefnogi eraill i ffynnu mewn grŵp
	Cam 10	**Bod yn ddiplomyddol** Rwy'n osgoi creu gwrthdaro di-fudd
	Cam 11	**Datrys gwrthdaro** Rwy'n gweithio ar y cyd i ddatrys gwrthdaro di-fudd
	Cam 12	**Rhwydweithio** Rwy'n adeiladu perthnasoedd defnyddiol y tu hwnt i'm tîm
Meistrolaeth	Cam 13	**Myfyrio ar y cyd** Rwy'n myfyrio ar gynnydd ac yn awgrymu gwelliannau
	Cam 14	**Dysgu ar y cyd** Rwy'n gwerthuso llwyddiannau a methiannau ac yn rhannu gwersi
	Cam 15	**Datblygu eraill** Rwy'n cefnogi fy nghyfoedion i ddatblygu
	Cam 16	**Gwella diwylliant** Rwy'n gwella diwylliant y tîm

Mae Fframwaith Cyffredinol 2.0 wedi'i warchod gan drwydded Creative Commons Attribution-No Derivatives-Non Commercial. Mae angen caniatâd gan Skills Builder Partnership ar ddefnyddwyr amgen Fframwaith Cyffredinol 2.0. https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/

Adnodd gwych ar gyfer datblygu sgiliau hanfodol ar bob cam o fywyd.

Rydym yn falch iawn bod y canllaw hwn bellach ar gael yn Gymraeg, gan helpu pobl ledled Cymru i feithrin y sgiliau i ffynnu.

A fantastic resource for developing essential skills at every stage of life.

We're delighted this guide is now available in Welsh, helping people across Wales build the skills to thrive.

Paul Lewis

Partner Rheoli ar draws y Cwmni
Firmwide Managing Partner,
– Linklaters LLP



Skills Builder PARTNERSHIP | UK

Skills Builder
FFRAMWAITH
CYFFREDINOL 2.0

© 2025 Enabling Enterprise Community Interest Company, yn masnachu fel Skills Builder Partnership
Dyfyniad:
Dylid dyfynnu'r papur hwn fel: Ravenscroft, T.M (2025) Fframwaith Cyffredinol 2.0 Skills Builder: Pecyn cymorth i addysgwyr. Llundain: Skills Builder Partnership
Mae Fframwaith Cyffredinol 2.0 wedi'i warchod gan drwydded Creative Commons Attribution-No Derivatives-Non Commercial. Mae angen caniatâd gan Skills Builder Partnership ar ddefnyddwyr amgen Fframwaith Cyffredinol 2.0. https://creativecommons.org/licenses/by-nc-nd/4.0/

www.skillsbuilder.uk